Rhif 1

# Yr Hen Wlad

Tachwedd 1993

## At Gymry Patagonia

**Dyma Gymdeithas Cymry Ariannin sydd, ers dros hanner can mlynedd wedi bod yn hyrwyddo'r cysylltiad â chwi yna, yn ceisio tynhau'r cwlwm trwy anfon atoch beth o hanes digwyddiadau pob dydd yng Nghymru - a Phrydain o dro i dro.**

Ein gobaith yw llunio crynhoad byr bob tri mis a'i anfon yna i'w ddyblygu a'i ddosbarthu gennych chwi.

Croesawn eich ymateb mewn llythyrau byrion oddi yna; boed y rheini yn cwyno neu'n canmol neu'n holi am wybodaeth ychwanegol am unrhyw newydd a ddarllenasoch yn y rhifyn hwn. Cofiwch anfon yn ddi-oed rhag ofn i'r pwnc fynd yn rhy hen.

*Y Golygyddion, Garreg Boeth,Capel Uchaf, Clynnog Fawr,Caernarfon, Gwynedd. LL54 5DH*

## SAIN a LLUN

Mae Cwmni Sain - sydd â'i Stiwdio yn Llandwrog ger Caernarfon - yn adnabyddus ers blynyddoedd fel cynhyrchwyr a chyhoeddwyr recordiau a chasetiau o unigolion, grwpiau a chorau o Gymru. Maent hefyd wedi bod yn cyhoeddi tapiau fideo ers tua deng mlynedd; ac i ddathlu'r ddegawd honno maent wedi sefydlu adran i wneud copïau o'u cynnyrch. Bydd y drefn hon yn eu galluogi i wneud hyd at fil a hanner o gopïau yr wythnos.

Byddant yn cynnig wyth teitl newydd o'r tapiau fideo at y Nàdolig, sef: Goreuon y Noson Lawen a rhagor o raglenni Dai Jones, Cefn Gwlad a hefyd C'mon Mid-ffild sydd yn ddiamau yn un o'r comedïau gorau a welwyd ar y teledu.

## Yng Nghlust y Teleffôn

Clywsom fod:

- Liliana Williams wrth ei bodd fel myfyrwraig yng Ngholeg Harlech. Mae'n cael dwy awr o wersi Cymraeg bob bore ac yn cael hwyl ar siarad yr iaith.
- Mirna Jones, oedd yn fyfyrwraig yng Ngholeg Harlech y llynedd, am aros yng Nghymru am flwyddyn arall. Mae hi ar hyn o bryd yng Nghanolfan Ysgrifennu y Tŷ Newydd, Llanystumdwy.
- Cintia Jones o El Maiten wedi cyrraedd Cymru yn ddiogel. Bu hithau ar un adeg yng Ngholeg Harlech.
- Elizabeth Jones, Braichceunant, Llanuwchllyn, yn gwella ar ôl triniaeth mewn ysbyty.
- Dei a Mair Edwards, Llanuwchllyn, yn gobeithio trefnu taith i'r Wladfa tua mis Mawrth nesaf.
- Rene Griffiths wedi sefydlu Cwmni i drefnu teithiau i'r Wladfa i farchogaeth a physgota.
- Arianina Roberts wedi derbyn Fideo o Ysgol Feithrin y Gaiman a agorwyd gan Mary Zampini yn ddiweddar.

## NODYN AM BRIFWEINIDOG

Cyn-brifweinidog erbyn hyn yw'r Fonesig Thatcher ond mae'n cael rhagor o sylw nag odid neb yn y Wasg ac ar y cyfryngau torfol.

Mae cyfrol drwchus am ei phrofiad fel Prifweinidog Prydain wedi dod o'r Wasg ers canol mis Hydref a deallwn nad yw'r cyfeiriadau at ei chydaelodau yn y Cabinet yn rhy ganmoliaethus.

Prifweinidog hyderus a phenderfynol o gyrraedd y nod yr anelai ato fu Mrs Thatcher, ac yn ôl y gyfres a deledwyd o Loegr yn adrodd ei hanes nid oedd hithau chwaith yn ordderbyniol gan ei chydaelodau.

## YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU

Nid Syr Wyn Roberts, y Cymro Cymraeg a godwyd yn Llansadwrn, Ynys Môn ac sydd wedi bod yn Weinidog yn y Swyddfa Gymreig er 1979 a gafodd ei benodi yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru ond Sais o'r enw John Redwood.

Yr Aelod Seneddol dros etholaeth Wokingham yn Lloegr yw Mr Redwood ac ni chredir bod ganddo unrhyw gysylltiad â Chymru cyn hyn. Dywed Dafydd Wigley, Aelod Seneddol Plaid Cymru, fod y penodiad "wedi ei ddychryn a'i siomi" ef yn fawr iawn.

---

Gan ei bod yn dymor yr haf yna beth am yr englyn hwn?

### MIS MAI

Dygyfor ei gôr a garaf - â'i law
Lliwia lwyn yn araf;
A'r Gwanwyn ar ei geinaf
Yn wyrth o rwysg, porth yr haf.

*Tîm Ymryson y Beirdd yn y 50au*

# MARW GWILYM R.

Mae'n ddiamau i'r rhai ohonoch o Ariannin oedd yng Nghymru yn ystod yr haf glywed am farw'r Prifardd Gwilym R. Jones yn Ninbych ac yntau yn 90 mlwydd oed.

'Roedd wedi ennill cadair a choron yr Eisteddfod Genedlaethol, hefyd y Fedal Ryddiaith. 'Roedd wedi cyhoeddi pum cyfrol o'i gerddi a dwy nofel ac wedi crynhoi ei hunangofiant yn y gyfrol *Rhodd Enbyd*.

Daethai teitl y gyfrol honno o'r llinell *Rhodd enbyd yw bywyd i bawb* a geir mewn drama gan Saunders Lewis, ac 'roedd Gwilym R. ei hun hefyd yn ddramodydd.

Cawsai ei eni yn Nhal-y-sarn yn Nyffryn Nantlle a threuliodd ei oes fel newyddiadurwr. Ar ôl bod yn gweithio ar *Yr Herald* yng Nghaernarfon a hefyd *Y Brython* yn Lerpwl daeth i Ddinbych i fod yn Olygydd *Baner ac Amserau Cymru* a bu yn y gadair honno am yn agos i ddeugain mlynedd.

Dywedir mai tair cainc ei awen oedd Cenedl, Heddychaeth a Christionogaeth. Lluniodd hefyd, fel R. Williams Parry, a hanai hefyd o'r un pentref - amryw o englynion i goffáu cyfoedion a chydnabod. Dyma un a luniodd i gofio am Emlyn Bryan Jones a fu farw yn 38 oed yn 1949:

Henaint ni welodd mono, - ni fu ias
Ei fysedd oer arno;
Ond gelyn dyn er cyn co'
Â'i law oer fu'n ei lorio.

# AR ANTUR I BATAGONIA

**Mae 11 o bobl ifanc o wahanol ardaloedd o Gymru wedi eu dewis i fynd ar daith antur mis o hyd i'r Wladfa ym Mhatagonia.**

Bydd y grwp... yn ymweld a Phatagonia fel rhan o Wobr Aur Gwobr Dug Caeredin.

Byddant yn ymweld â nifer o ardaloedd o bwys gan gynnwys Gorynys y Valdez, ardal o ddiddordeb gwyddonol arbennig, er mwyn gwylio'r pengwins a'r morfilod. Bydd y grwp yn ymgymryd â phrosiect o fewn y Gymuned Gymraeg i hyrwyddo'r iaith ymhlith pobl ifanc ac i roi cefnogaeth i'r rhai hynny sy'n ceisio sicrhau dyfodol i'r iaith.

Yn ogystal â dilyn rhaglen hyfforddi ar gyfer y daith ym Mannau Brycheiniog ac Eryri, mae'r bobl ifanc hyn wedi bod yn ddiwyd yn codi arian er mwyn mynd ar y daith...

Gobeithir croesawu grwp o siaradwyr Cymraeg o Batagonia i Gymru yn ystod 1994.

Un o'r Cymry sy'n mynd drosodd yw Iona Davies o Fangor, sy'n fyfyriwr ail flwyddyn yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin ac yn un o ddisgynyddion Michael D. Jones, arweinydd y Cymry a ymfudodd yn 1865 i Batagonia....

O'r *Cymro*, Hydref 20 1993

# RHAGOR O FERCHED?

Collodd Ann Clwyd ei sedd yng Nghabinet y Blaid Lafur sef yr Wrthblaid ar hyn o bryd yn Senedd Prydain. Hi - sy'n siarad Cymraeg - yw'r unig ferch sy'n cynrychioli un o etholaethau seneddol Cymru yn Llundain.

Ymdrech John Smith - arweinydd y Blaid Lafur - i gael rhagor o ferched yn y Cabinet a achosodd hyn a throi'r cais yn fethiant gan mai tair o ferched yn unig a etholwyd, sydd hyd yn oed yn gostwng y nifer i fod un yn llai na'r llynedd.

Ann Clwyd oedd Ysgrifennydd Treftadaeth y Blaid Lafur ers tro a chyn hynny yn Ysgrifennydd y Blaid Lafur dros Gymru. Trannoeth fodd bynnag rhoes John Smith swydd i bump o ferched yn ei Gabinet - ond nid oedd Ann Clwyd yn un ohonynt.

# THEATR

**Mae'r Theatr a'r Ddrama wedi dod yn faes i'w astudio mewn ysgol a choleg a'r gweithgarwch theatraidd ar hyn o bryd yng Nghymru yn sylweddol dros ben.**

Prinder dramâu gwreiddiol yn y Gymraeg a thuedd fwyfwy at gyfieithiadau yw'r gwyn yn aml iawn. Mae Emyr Edwards mewn Atodiad a enwir *Theatr* yn Rhifyn Hydref o *Barn* yn ychwanegu na "welir ond ychydig o'r cyfieithiadau mewn print". Gellid hefyd restru nifer dda o ddramâu byrion a wobrwywyd o dro i dro yn yr Eisteddfod Genedlaethol na welwyd ac na chlywyd amdanynt wedyn.

Ymhlith y cwmniau proffesiynol sydd yn teithio yma ac acw ar hyn o bryd y mae *Theatr Bara Caws*, a hynny efo drama wreiddiol newydd sef *Diwedd y Byd* gan Michael Povey.

*Cwmni Theatr Gwynedd* efo *Awe Bryn-coch*, sydd yn sioe lwyfan wedi ei seilio ar y gyfres deledu *C'mon Midffild* sy'n un o'r rhai eraill sy'n teithio y dyddiau hyn.

---

Nid aur yw popeth melyn. (*Dihareb*)

# AGOR SWYDDFA

**"Gobeithiwn fedru cyhoeddi yn fuan mai'r Cynghorydd Eurig Wyn o'r Waun-fawr, Caernarfon, fydd yn un o'r tri chynrychiolydd o Gymru ar Bwyllgor Rhanbarthau Ewrop."**

Dafydd Wigley, Aelod Seneddol Arfon a ddywedodd hyn mewn cyfarfod i agor swyddfa newydd Plaid Cymru yng Nghaernarfon nos Wener Hydref 22.

'Roedd y Dr. Gwynfor Evans yno hefyd ac ef oedd y prif siaradwr a'r sawl oedd yn torri'r ruban gwyrdd i'w hagor yn swyddogol.

Soniodd Dr. Evans am y gweithgarwch sylweddol a ddeilliodd o'r hen swyddfeydd yng Nghaernarfon a'u cyfraniad at ddatblygiad a llwyddiant Plaid Cymru. Yma y bu H.R. Jones a J.E. Jones - y trefnwyr cyntaf - yn gweithio, ac yn etholaeth Arfon y caed yr Ymgeisydd Seneddol cyntaf, sef y diweddar Barchedig Lewis Valentine a gafodd 609 o bleidleisiau, y rhai y cyfeirir atynt fel y *Gallant Six Hundred.*

# CAPELI'N GWAGIO

Fel mae'r to hynaf o'r aelodau'n prinhau mae'r cynulleidfaoedd yn ein capeli yn teneuo ac mae'n amlwg bellach mai cau'r drysau fydd hi yn hanes y rhan fwyaf ohonynt.

Ymddengys mai'r costau o gynnal yr adeiladau yw'r rheswm pennaf a roir gan ambell enwad dros fynd ati i'w cau. Ond teg fyddai iddynt wynebu'r her nad oes cynulleidfaoedd bellach sydd yn ddigon lluosog i wahodd unrhyw bregethwr i draddodi o'r pulpudau. Mae hyn yn sicr o fod yn wir yn yr ardaloedd gwledig a rhesymol fyddai i'r "dau neu dri" wir ystyried y posibilrwydd o fynd at ei gilydd i un ganolfan.

Pe eid ati i drefnu fel hyn y tebygolrwydd yw mai nid ymuno â'i gilydd a wneid ond rhoi'r gorau yn gyfan gwbl i fynychu lle o addoliad, a chan mai cynulleidfa dros ei hanner cant oed a geir ym mwyafrif ein haddoldai mae'r gobaith am waed ifanc i gynnal yr achos wedi mynd yn bur wan os nad yn anobeithiol.

---

Yr hen a ŵyr a'r ifanc a dybia.
Adfyd a ddaw â dysg yn ei law.

*Diarhebion*

# RHAGOR o DDYSGWYR

Ymddengys bod ymdrechion Coleg Llanbedr Pont Steffan i ddysgu Cymraeg i fyfyrwyr yn llwyddo du hwnt i bob disgwyliad.

Mae pedwar myfyriwr - rhai o'r Iseldiroedd, Gwlad Pwyl a Sweden - sydd ar hyn o bryd ym Mhrifysgol Cymru yn Aberystwyth wedi mynd ati'n frwd trwy'r cwrs hwnnw er mwyn eu galluogi i ddilyn Astudiaethau Celtaidd trwy gyfrwng y Gymraeg.

# MERCHED YR ACHOS

Mae bwriad Eglwys Loegr i ordeinio merched i wasanaethu yn yr Eglwys wedi achosi rhwyg ymhlith yr aelodau ac mae Eglwys Rufain erbyn hyn yn anelu at rwyddhau'r ffordd i'r anghydffurfwyr hyn i gael eu derbyn fel rhan o'r Eglwys honno.

Mae'r Cardinal Hume - Archesgob Westminster - yn bwriadu ymweld â'r Pab yn Rhufain o hyn i ddiwedd y flwyddyn hon i drafod a chrynhoi amodau a threfn y derbyn.

# ARIAN YN LLIFO

Mae Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop am roi yn agos i dri chwarter miliwn o bunnau at bafiliwn Eisteddfod Gydwladol Llangollen.

Bydd y cymhorthdal o £740,000 bron yn hanner y gost o osod goleuadau, moddion sain ac offer llwyfan a seddau er mwyn hyrwyddo'r posibilrwydd o fedru ei ddefnyddio ar hyd y flwyddyn.

# CANMLWYDDIANT

**Ar Nos Wener , Hydref 15 1993, caed cyfarfod yn Theatr Seilo, Caernarfon, i ddathlu canmlwyddiant geni Saunders Lewis. Cymerwyd rhan gan Dafydd Iwan, yr actorion John Ogwen a Maureen Rhys, hefyd Dafydd Glyn Jones o Goleg Bangor. Y cyflwynydd oedd Eirug Wyn, Y Groeslon.**

---

Rhodd enbyd yw bywyd i bawb. (Saunders Lewis)

Gwinllan a roddwyd i'm gofal yw
Cymru fy ngwlad,
I'w thraddodi i'm plant,
Ac i blant fy mhlant
Yn dreftadaeth dragwyddol. (Saunders Lewis)

# PEDWAR

O hyn i'r Nadolig bydd cyfrol arall o sgyrsiau John Roberts Williams yn dod o'r Wasg. Sgyrsiau pum munud yn wythnosol ar y radio yn dwyn y teitl *Dros fy Sbectol* ydynt a hon fydd y bedwaredd gyfrol i'w chyhoeddi.

Gan fod yr awdur wedi bod yn Olygydd *Y Cymro* am flynyddoedd ac wedyn yn cywain newyddion a golygu storïau at raglenni teledu mae'n ŵr profiadol dros ben ac yn cadw ei fys ar byls y Gymru heddiw - boed hynny yn boliticaidd neu'n gymdeithasol - ac mae ei gefndir diwylliannol a llenyddol yn glai hyblyg yn ei ymdriniaeth â'r pynciau hynny.

Mae'n ŵr adnabyddus am ei hiwmor cynnil ac fe'i cofir fel y John Aelod Jones hwnnw y gwelid ei waith yn yr *Herald Cymraeg* ac yn ddiweddarach yn *Y Cymro*.

Enw'r gyfrol fydd *Pum Munud i Chwech a Phum Munud i Wyth*. Fe'i cyhoeddir gan Wasg Gwynedd.

# *DEDDF IAITH*

**Mae'r ymgyrchu dygn am Ddeddf Iaith a wnâi'r iaith Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg wedi dod i ben dros dro gan fod Deddf Iaith lawer gwannach - sydd wedi ei llofnodi gan y Frenhines erbyn hyn - yn dod i rym ymhen rhyw ddeufis.**

Yr hyn fydd gennym bellach yw Bwrdd Iaith dan Gadeiryddiaeth yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas ac mae ef yn honni y bydd pwerau a grym y Bwrdd hwnnw yn ateb ein gofynion. Mae cefnogwyr Cymdeithas yr Iaith yn gwadu hynny ac wedi gweithredu mewn dulliau torcyfraith yng Nghaerfyrddin. Mae chwech oedolyn i ymddangos yn Llys y Goron yn y dref honno yn fuan.

# PUMP OED

Mae Cangen Môn ac Arfon o Gymdeithas Cymry Ariannin dros ei phump oed ac yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ym Mangor.

Dywed Cathrin Williams, sefydlydd y Gangen, fod yr aelodaeth wedi dyblu erbyn hyn. Y Bonwr Gwyn L. Williams oedd y siaradwr yr Hydref hwn a'i bwnc oedd Cerddoriaeth Ariannin.

# £

# ££

# £££

# $$$$

**arian...sydd ei angen a gwelsom lythyr Shan Emlyn yn y Papurau Bro yn apelio am gefnogaeth ariannol i Gymdeithas Cymry Ariannin er mwyn gwireddu rhagor o gynlluniau.**

---

# CYSTADLEUAETH

Dyma'r testun i gystadlu arno ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1994:

*Cystadleuaeth i rai sydd wedi byw yn Ariannin ar hyd eu hoes ac sy'n dal i fyw yno:*

***CASGLIAD O FEDDARGRAFFIADAU CYMRAEG O'R WLADFA***

Y Beirniad fydd Elvey MacDonald ac mae Cymdeithas Cymry Ariannin yn rhoi gwobr o £100 i'w rannu yn ôl doethineb y beirniad.

Y dyddiad cau yw 1 Ebrill 1994

---

Ni ellir osgoi i rywfaint o farn a rhagfarn y Golygyddion ymwthio i'r rhifynnau o dro i dro ond ni fydd hynny o angenrheidrwydd yn golygu eu bod yn datgan teimladau na barn Cymdeithas Cymry Ariannin.

Guto a Marian Elias Roberts - Golygyddion